# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37566, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 21 Hydref 2004

**At William Graham:**

Byddwch yn cofio i mi addo ysgrifennu atoch yn dilyn eich cais am y wybodaeth ddiweddaraf ar raglen y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol 'Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru: Yr Agenda dros Newid 2004-2006'.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r CRE. Er enghraifft, ym mis Hydref, mae cyfres o gyfarfodydd penodol yn cael eu cynnal gyda'r CRE i drafod manylion ein cynllun cydraddoldeb hiliol drafft diwygiedig gyda'r bwriad o gytuno a chwblhau drafft y mae'n barod i'w gymeradwyo mewn modd positif.

Mae hwn yn gam gwirioneddol ymlaen ac yn gadarnhad y cafwyd llawer o gynnydd eisoes ar ddrafftio cynllun cydraddoldeb hiliol diwygiedig. Mae adrannau wrthi'n paratoi cynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol adrannol, nad ydynt yn rhan o'r ddogfen ar gyfer y cynllun ond ceir cyfeiriad amlwg atynt yn y ddogfen ac yr oeddent ar gael adeg ei gyhoeddi. Bydd gofyn i adrannau sicrhau bod eu Gweinidogion yn cefnogi'r cynlluniau hyn.

Ar 22 Medi, cynhaliwyd digwyddiad i drafod fersiwn drafft o'r cynllun oedd yn cynnwys prif swyddogion adrannau ac arbenigwyr allanol a phobl oedd â rôl fel 'ffrindiau beirniadol' yn y negodiadau. Ystyrir yr adborth wrth gynhyrchu'r cynllun drafft, sydd i'w gyflwyno i Weinidogion yn gynnar ym mis Tachwedd.

Yr ydym yn symud ymlaen ag amcan 'Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru: Yr Agenda dros Newid 2004-2006' drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r CCH i alluogi pobl i weithredu'r ddyletswydd cyhoeddus o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

## Gwybodaeth ychwanegol i OAQ37563, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 6 Hydref 2004

**At David Davies:**

Yn y drafodaeth yn dilyn cwestiwn 5 i'r Prif Weinidog ar 21 Medi 2004, nododd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch i ateb eich cwestiwn ynghylch cyllid gan y Cynulliad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn sgîl ail fandio'r dreth gyngor.

Fel y byddwch yn ei werthfawrogi, nid yw'n bosibl i mi fanylu ar hyn o bryd ar y cynnydd yn y setliad refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf gan na chyhoeddwyd cyllideb y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd nesaf eto. Mae sut y bydd unrhyw gynnydd yng nghefnogaeth y Cynulliad i lywodraeth leol yn effeithio ar awdurdodau unigol yn dibynnu ar y fformiwla ar gyfer y setliad.

Mae sut y caiff y setliad refeniw ei ddyrannu yn dibynnu ar yr asesiad gwario safonol ar gyfer pob awdurdod. Mae'r AGS yn asesiad o'r angen i wario sydd gan bob awdurdod i ddarparu gwasanaeth sydd ar lefel gyson ledled Cymru. Lefel y grant cynnal refeniw a roddir i bob awdurdod yw'r gweddill sydd ei angen ar ôl cymryd i ystyriaeth y lefel dybiedig o incwm o'r dreth gyngor a sut y caiff incwm y dreth genedlaethol annomestig ei ailddosbarthu.

Caiff y lefel dybiedig o incwm o'r dreth gyngor ei seilio ar y bandiau eiddo newydd. Felly, os yw eiddo wedi symud i fyny un band, y lefel dybiedig o incwm o'r dreth gyngor y bydd y cyngor yn disgwyl ei gael o ran yr eiddo hwnnw fydd y dreth gyngor wedi ei seilio ar y band graddfa uwch hwnnw. Yn yr un modd, os yw eiddo yn symud i lawr un band yna caiff y lefel dybiedig o incwm o'r dreth gyngor ei seilio ar y bandio is. Lle mae unigolyn yn symud i fyny dau fand neu fwy byddwn yn amcangyfrif yr incwm o'r dreth gyngor yn unol â'r bandio hwnnw. Mewn achosion o'r fath bydd y cynllun cymorth trosiannol yn darparu elfen o incwm i'r awdurdod yn lle'r incwm ychwanegol sy'n ddyledus gan ddeiliad y tŷ oherwydd bod ei eiddo wedi symud i fyny mwy nag un band.

Gobeithiaf fod hynny yn ateb eich cwestiwn.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37571, a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 13 Hydref 2004**

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi bu ichi ofyn cwestiwn ychwanegol at OAQ37571 ynghylch y ffaith bod ymarferwyr cyffredinol yn tynnu yn ôl o weithio y tu allan i oriau arferol mewn ysbytai cymunedol. Cytunodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

Fel yr eglurais yn ddiweddar yn fy natganiad ar barhad gwasanaethau gan ymarferwyr cyffredinol mewn ysbytai cymunedol ar 28 Medi, mae fframwaith cenedlaethol o egwyddorion sy'n caniatáu trefniadau lleol o ran trafodaethau gydag ymarferwyr cyffredinol, nid yn unig ar daliadau, ond ar eu rôl o ran darparu gwasanaethau lleol.

Oherwydd bod ysbytai cymunedol yn amrywio ledled Cymru, er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau gwahanol, rhaid i ymddiriedolaethau lleol fod yn gyfrifol am drafod y math a'r steil o driniaeth sydd i'w gynnig fel bod y defnydd a wneir o ysbytai cymunedol wedi ei seilio ar y gofal sydd ei angen gan boblogaethau lleol.

Mae rhai ymddiriedolaethau eisoes wedi datblygu trefniadau amgen, sy'n cyd-fynd â'r strategaethau lles iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer lleoliadau gwahanol. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod Powys yn unigryw oherwydd ei ddibyniaeth ar ysbytai cymunedol, ond yr wyf yn ymwybodol bod negodiadau wedi cychwyn yr wythnos ddiwethaf pan gytunwyd y bydd y cyfraddau taliadau presennol yn parhau i gael eu talu hyd 31 Rhagfyr, sy'n rhoi cyfnod o dri mis i'r ddwy ochr negodi cytundeb diwygiedig a gaiff ei ôl-ddyddio i 1 Hydref.

Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion fy hysbysu ynghylch unrhyw ddatblygiadau.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37571, a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar 23 Tachwedd 2004**

**At Jonathan Morgan:**

Yr wyf yn ysgrifennu ynghylch cwestiwn a ofynasoch i'r Prif Weinidog ar 21 Medi 2004 ynghylch swyddi gwag yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru a beth oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei wneud i helpu i wella'r sefyllfa. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ateb.

Yr oedd nifer y swyddi gwag yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru ym mis Mawrth 2004 yn uwch na'r arfer gan nad oedd rhai o'r staff newydd a benodwyd wedi cwblhau eu

hyfforddiant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr oedd nifer y staff newydd a benodwyd yn ystod 2003-04 yn llawer uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y cyllid refeniw ychwanegol o £2.5 miliwn a ddarparwyd gan y Cynulliad. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn galluogi ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru i gynyddu nifer y staff gweithredol a'r staff sy'n gweithio yn yr ystafell reoli gan 326. Rhoddwyd dyddiadau cychwyn cyrsiau yn y dyfodol i staff newydd nad oeddynt wedi cwblhau eu hyfforddiant ym mis Mawrth.

Gobeithio bod fy ateb o gymorth i chi.